# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2024-25

## Y Brifysgol Agored

Ionawr 2026

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Llywodraethu 5
3. Cydymffurfiaeth 6
4. Ffocws ar y flwyddyn i ddod 16

# 1. Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 yw'r wythfed i'w gynhyrchu gan y Brifysgol Agored (OU) yn unol â safonau 166, 172 a 178.

Mae ein tîm o staff yng Nghymru yn parhau i fanteisio ar gynnig y Brifysgol Agored i ddysgu Cymraeg drwy Brifysgol Aberystwyth, ac mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae nifer ohonynt wedi symud ymlaen i lefelau dysgu uwch, ac mae dau aelod o staff rhugl yn astudio *Cymraeg proffesiynol*. I gyd, mae 30 o staff yn dysgu Cymraeg yn ystod eu hwythnos waith ar hyn o bryd, gan gynnwys staff cymorth a darlithwyr cyswllt.

Mae ein cymuned ymarfer *Y Gorlan* yn darparu fforwm rheolaidd i staff sy'n siarad Cymraeg gyfnewid syniadau, rhannu arfer orau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r grŵp hefyd wedi gwahodd siaradwyr allanol i helpu i ddatblygu arfer . Yn ystod 2024-25, clywodd y grŵp gan dîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar sut maen nhw'n sicrhau bod negeseuon yn berthnasol i ddefnyddwyr Cymraeg; a thîm ymchwil ym Mhrifysgol Bangor sydd wedi helpu i ddatblygu hyder staff sy'n siarad Cymraeg yn eu sefydliad.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru'n parhau i gynnig cyfoeth o ddysgu ar-lein am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg. Un uchafbwynt yn y maes hwn yn 2024-25 oedd gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu *Chi, Fi a Dyfodol Cymru* - cwrs ar-lein i helpu dysgwyr i ddeall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut y gellir ei defnyddio i ddylanwadu ar newid. Mae'r cwrs ar gael yn y Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain.

O ran addysgu, mae ein cwrs TAR, a addysgir yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn parhau i ddarparu llwybr arloesol i raddedigion i addysgu dros ddwy flynedd, lle bynnag y bônt yng Nghymru. Yn ystod 2024-25, cofnodwyd bod gan 66% o ddysgwyr ar y rhaglen sgiliau hyfedr neu ganolradd yn y Gymraeg. Mae'r Brifysgol Agored wedi datblygu copi diwygiedig o'i pholisi *asesu drwy gyfrwng y Gymraeg*, sy'n rhoi sicrwydd i fyfyrwyr o'u hawl i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg; ac yn egluro proses y Brifysgol

Agored ar gyfer marcio aseiniadau iaith Gymraeg. Er mai dim ond i fyfyrwyr yng Nghymru y mae'r safonau'n berthnasol, mae'r Brifysgol Agored wedi ymestyn y cynnig i gyflwyno gwaith yn y Gymraeg i bob myfyriwr, waeth ble maen nhw'n byw.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynodd y Brifysgol Agored fodiwl e-ddysgu dwyieithog newydd ar-lein ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Mae'n orfodol i bob aelod o staff yng Nghymru ei gwblhau bob dwy flynedd. Y gyfradd gwblhau gyfredol yw 63%. Mae'r Brifysgol Agored hefyd wedi cyflwyno cynnwys ar safonau'r iaith Gymraeg i'n cwrs ar-lein *Equality Essentials*. Mae'r cwrs hwn yn orfodol i bob aelod o staff, a bydd bellach yn helpu i sicrhau bod ymwybyddiaeth sylfaenol o'r iaith a deddfwriaeth berthnasol yn bodoli ar draws y sefydliad.

Mae'r Brifysgol Agored yn parhau i ddatblygu ei defnydd o'r Gymraeg ar-lein. Yn dilyn trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg, mae safon 55 ar hysbysiad cydymffurfio'r Brifysgol Agored wedi'i diwygio i gwmpasu cynnwys cyrsiau ar wefan ganolog y Brifysgol Agored sy'n cyfeirio at gyrsiau penodol i Gymru; a gwybodaeth am ffioedd a chyllid sy'n benodol i fyfyrwyr yng Nghymru. Credwn y bydd y gofyniad diwygiedig hwn yn rhoi mwy o eglurder i ddefnyddwyr ein gwefan, ac yn gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr yn y Gymraeg.

## 2. Llywodraethant

Mae Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn parhau i chwarae rôl strategol wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws y brifysgol, a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyfarwyddwr yn cadeirio'r Grŵp Goruchwylio'r Iaith Gymraeg, sydd ag aelodau o bob rhan o'r sefydliad.

Mae cyfrifoldebau'r grŵp goruchwylio yn cynnwys:

- monitro cydymffurfiaeth y brifysgol â safonau'r iaith Gymraeg
- monitro datblygiadau strategol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y brifysgol
- sicrhau bod strwythurau llywodraethu'r brifysgol yn rhoi sylw dyledus i gydymffurfiaeth â'r safonau
- ystyried effeithiau allanol ar ddarpariaeth y brifysgol o wasanaethau iaith Gymraeg, megis newidiadau deddfwriaethol
- cydweithio â grŵp gweithredol iaith Gymraeg y brifysgol
- ystyried cynigion ar gyfer prosiectau newydd i ddatblygu darpariaeth y brifysgol o wasanaethau iaith Gymraeg.

Mae grŵp gweithredol iaith Gymraeg hefyd wedi'i sefydlu. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd staff allweddol ar draws y brifysgol i fynd i'r afael yn systematig â heriau a materion cydymffurfio.

Mae cyfrifoldebau'r grŵp gweithredol yn cynnwys:

- monitro ffrydiau gwaith allweddol y Gymraeg
- darparu fforwm ar gyfer cyfathrebu a chydweithio
- sicrhau gwelliant parhaus i ddarpariaeth gwasanaethau'r iaith Gymraeg
- cynyddu risgiau i'r grŵp goruchwylio
- monitro newidiadau polisi allanol
- hwyluso ein perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Eleni cryfhawyd ein perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn hanesyddol, nid oedd y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi bod yn rhan o raglen ymweliadau sefydliadol blynyddol y Coleg, ond yn dilyn ymgysylltu rhagweithiol ym mis Tachwedd 2024, mynegasom ein diddordeb mewn cael ein cynnwys. Ymatebodd y Coleg yn gadarnhaol, a chynhaliwyd ein hymweliad sefydliadol cyntaf ym mis Tachwedd 2024—gan adlewyrchu ymrwymiad a rennir i gydweithio agosach a mwy o gyd-weddu â blaenoriaethau cyfrwng Cymraeg cenedlaethol.

# 3. Cydymffurfiaeth

## A. Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

| **Safonau** | **Dyddiad gosod** |
|---|---|
| 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 24, 24A, 26A, 27, 27A, 27D, 29, 29A, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 40A, 41, 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 52, 53A, 53B, 54, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 65, 66, 67, 68, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 76A, 78, 79, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 90A, 93 | 1 Ebrill 2018 |
| 53, 55, 80, 81, 81A, 83, 84 | 1 Hydref 2018 |

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau cyflenwi gwasanaethau yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gwaith diweddar i sicrhau'r cydymffurfiaeth orau â'r safonau hyn yn cynnwys:

- diweddaru'r polisi *Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg* i roi mwy o eglurder i fyfyrwyr ynghylch sut y bydd aseiniadau yn y Gymraeg yn cael eu hasesu
- cefnogi ymgeiswyr PhD i baratoi traethodau ymchwil yn y Gymraeg, yn ysbryd safonau 90 a 90A.

## B. Safonau llunio polisi

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

| **Safonau** | **Dyddiad gosod** |
|---|---|
| 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104 | 1 Hydref 2018 |

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau llunio polisi yn ystod y cyfnod adrodd.

Dyma ddatblygiadau diweddar i gefnogi safonau llunio polisïau:

- Mae staff y Brifysgol Agored wedi cael gwybod am yr angen i adolygu penderfyniadau polisi yn ogystal â dogfennau polisi. Adolygwyd cynllun diswyddo gwirfoddol i staff yn ystod 2024-25 am ei effaith ar yr iaith Gymraeg.

## C. Safonau gweithredu

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn.

| **Safonau** | **Dyddiad gosod** |
|---|---|
| 106, 107, 108, 109, 110, 111, 119, 119A, 121, 122, 123, 123A, 125, 126, 127, 132, 134, 135, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 144A, 145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149, 150, 151, 152, 153 | 1 Ebrill 2018 |
| 105, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118 | 1 Hydref 2018 |
| 111 | 1 Ebrill 2019 |

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gwaith diweddar i sicrhau'r cydymffurfiaeth orau â'r safonau hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi modiwl ar-lein dwyieithog newydd ar gyfer staff y Brifysgol Agored yng Nghymru ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- ychwanegu cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg at ein cwrs ar-lein *Equality Essentials* i'r holl staff.

## Sgiliau Cymraeg - Yn unol â safonau 134 a 158

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg cyflogeion sy'n gweithio yng Nghymru. Mae canlyniadau'r arolwg, yn seiliedig ar gyfradd cwblhau o 79% fel a ganlyn:

| **Sgiliau gwrando Cymraeg** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 52 | 35% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 16 | 11% |
| Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 28 | 19% |
| Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg | 19 | 13% |
| Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl | 7 | 5% |
| Yn gallu dilyn y mwyafrif o sgyrsiau yn ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp | 5 | 3% |
| Yn gallu deall pob sgwrs yn ymwneud â gwaith | 23 | 15% |
| **Sgiliau darllen Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 49 | 33% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 13 | 9% |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (e.e. arwyddion neu nodiadau byr syml) | 47 | 31% |
| Yn gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf) | 6 | 4% |
| Yn gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur | 7 | 5% |
| Yn gallu deall y mwyafrif o ddeunydd yn ei faes gwaith ei hun | 5 | 3% |
| Yn gallu deall pob deunydd yn ymwneud â gwaith | 23 | 15% |
| **Sgiliau siarad Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 57 | 38% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 19 | 13% |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml (e.e. cyfarchion, (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 33 | 22% |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml yn ymwneud â gwaith | 7 | 5% |
| Yn gallu sgwrsio â rhywun, gyda rhywfaint o betruster, am faterion gwaith arferol | 6 | 4% |
| Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg | 7 | 5% |
| Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod estynedig o amser lle bo angen | 21 | 14% |
| **Sgiliau ysgrifennu Cymraeg** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 68 | 45% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 19 | 13% |
| Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o.....) | 25 | 17% |
| Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth | 7 | 5% |
| Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu | 6 | 4% |
| Yn gallu paratoi y mwyafrif o ddeunydd ysgrifenedig, gyda rhywfaint o gymorth i'w ddiwygio | 9 | 6% |
| Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei ddiwygio | 16 | 11% |

Mae'r Brifysgol Agored hefyd wedi cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg darlithwyr cyswllt y nodwyd eu bod yn gweithio yng Nghymru gyda chyfradd gwblhau o 32%. Roedd yr arolwg hwn yn ddewisol.

| **Sgiliau gwrando Cymraeg** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 31 | 15% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 7 | 3% |
| Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 11 | 5% |
| Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg | 5 | 2% |
| Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl | 1 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu dilyn y mwyafrif o sgyrsiau yn ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp | 1 | 0% |
| Yn gallu deall pob sgwrs yn ymwneud â gwaith | 12 | 6% |
| **Sgiliau darllen Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 31 | 15% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 4 | 2% |
| Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (e.e. arwyddion neu nodiadau byr syml) | 14 | 7% |
| Yn gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf) | 2 | 1% |
| Yn gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur | 4 | 2% |
| Yn gallu deall y mwyafrif o ddeunydd yn ei faes gwaith ei hun | 3 | 1% |
| Yn gallu deall pob deunydd yn ymwneud â gwaith | 10 | 5% |
| **Sgiliau siarad Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 33 | 16% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 7 | 3% |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml (e.e. cyfarchion, (Ble mae....? / Ga i siarad â....?) | 11 | 5% |
| Yn gallu ateb ymholiadau syml yn ymwneud â gwaith | 3 | 1% |
| Yn gallu sgwrsio â rhywun, gyda rhywfaint o betruster, am faterion gwaith arferol | 1 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg | 1 | 0% |
| Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod estynedig o amser lle bo angen | 12 | 6% |
| **Sgiliau ysgrifennu Cymraeg** | | |
| Dim sgiliau | 36 | 17% |
| Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg) | 6 | 3% |
| Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o.....) | 10 | 5% |
| Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth | 2 | 1% |
| Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu | 2 | 1% |
| Yn gallu paratoi y mwyafrif o ddeunydd ysgrifenedig, gyda rhywfaint o gymorth i'w ddiwygio | 4 | 2% |
| Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei ddiwygio | 8 | 4% |

## Hyfforddiant - Yn unol â safonau 135 a 159

Yn unol â safon 135, rydym wedi gwneud darpariaethau i alluogi ein staff yng Nghymru i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg, lle y caiff yr hyfforddiant yn y meysydd hynny ei ddarparu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaeth unrhyw aelod o'r staff ddewis yr opsiwn Cymraeg.

## Recriwtio - Yn unol â safon 145 a 162

Rhwng 1 Awst 2023 ac 1 Awst 2024, recriwtiodd Y Brifysgol Agored y nifer canlynol o weithwyr ar gyfer swyddi â gofynion iaith penodol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru:

(i) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1

(ii) Swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd –0

(iii) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol – 23

(iv) Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol –0

## 4. Ffocws ar y flwyddyn i ddod

Dros y 12 mis nesaf, bydd y Brifysgol Agored yn parhau i ddatblygu ein gwefan ganolog fel ei bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr a rhanddeiliaid. Mae'r brifysgol yn adolygu ei thaith ymholi ar ein gwefan yn barhaus, er mwyn cadw i fyny â thechnoleg newidiol a disgwyliadau'r cyhoedd. Bydd diwygiadau i safon 55 yn sicrhau y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, fel bod cynnwys y wefan yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth gyfoes i ddefnyddwyr y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn blaenoriaethu a gwella ein perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. I ddechrau, mynegon ni ddiddordeb mewn sefydlu cangen o'r Coleg. Er nad yw cyllid grant cangen yn bosibl, rydym wedi cael y cyfle i wneud cais am gyllid i sefydlu Arweinydd Academaidd pwrpasol ar gyfer y Gymraeg. Nododd ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y Gymraeg (a gyfarfu yn ystod 2023/24) fwlch critigol mewn arbenigedd academaidd yn y Gymraeg ar draws addysgu, dysgu ac asesu ar lefel weithredol a strategol. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a gyrru datblygiad y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, argymhellodd y grŵp benodi Arweinydd Academaidd pwrpasol ar gyfer strategaeth a chyflenwi'r iaith Gymraeg. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hon yn swydd tair blynedd i ddatblygu ein dealltwriaeth o gyfleoedd cwricwlwm a helpu i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio modiwlau iaith Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at weld Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cael ei gweithredu yn ystod tymor nesaf y Senedd, a defnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Gobeithiwn y bydd y fframwaith newydd hwn yn cefnogi'r Brifysgol Agored i recriwtio mwy o ddefnyddwyr y Gymraeg, yn ogystal â datblygu sgiliau a hyder staff wrth ddefnyddio'r iaith.